JENKINS, JOHN (1656? - 1733), gweinidog y Bedyddwyr yn Rhydwilym, Sir Gaerfyrddin.

Enw: John Jenkins
Dyddiad geni: 1656?
Dyddiad marw: 1733
Plentyn: Jennett Richards (née Jenkins)
Plentyn: Evan Jenkins
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog y Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Benjamin George Owens

Dywedir ei eni yng Nghilymaenllwyd yn 1656, a disgrifir ef ym more ei oes fel gŵr ' trach-wyllt, yn dilyn chwariaethau ofer a champau, yn ymddiosg i ymladd wrth chwarae Cnappan ... ' Dywedir hefyd ei fedyddio yn 1677, ond o blwyf Spittal, yn ôl llyfr eglwys Rhydwilym, y daeth yr unig ŵr o'r enw y cofnodir ei fedyddio (12 Mai) y flwyddyn honno. Ymddengys ei enw ymhlith un-gweinidog-arddeg Rhydwilym yn 1689, a chyda throad y ganrif daeth yn arweinydd yr eglwys. Bu'n amlwg mewn dadl fedydd â John Thomas, gweinidog Annibynnol, o Lwynygrawys, Llangoedmor, yn 1691 (1692 yn ôl rhai ffynonellau), ac mewn ymraniad blin yn ei eglwys tua'r cyfnod 1724-6. Dywedir hefyd mai ef, yn 1718, oedd y cyntaf i dderbyn cymorth o'r ' Baptist Fund.' Bu farw 3 Gorffennaf 1733, yn 77 oed, a chladdwyd ef yn Rhydwilym.

Yr oedd ei frawd Dafydd yn henuriad yn Rhydwilym, a thybir mai brawd arall oedd yr Evan a restrwyd fel hwythau dan Gilymaenllwyd yn llyfr yr eglwys yn 1689; ceir cyfeiriad hefyd at ei ferch Jennett Richards, a llawer o sôn am ei fab Evan Jenkins a'i ŵyr y Dr. Joseph Jenkins, a fu ill dau yn weinidogion Hen Gapel Wrecsam.

Bu cyfrol wreiddiol o'i bregethau ym meddiant William Herbert, gweindog Maesyberllan, a Joshua Thomas, Llanllieni.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Cofrestr Eglwys Rhydwilym yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Ll.G.C.

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (Caerfyrddin 1778)

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

J. E. Lloyd, *A History of Carmarthenshire*, 901

A. N. Palmer, *A history of the older nonconformity of Wrexham and its neighbourhood being the third part of 'A history of the town and parish of Wrexham'*(1888)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733475

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owens, B. G., (1953). JENKINS, JOHN (1656? - 1733), gweinidog y Bedyddwyr yn Rhydwilym, Sir Gaerfyrddin.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JENK-JOH-1656

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government